# Safonau Dylunio Gwasanaethau Digidol

Mae ein **Safon Dylunio Gwasanaethau Digidol** yn nodi'r disgwyliadau ar gyfer dylunio a darparu gwasanaethau digidol sy'n **bodloni anghenion** ein dinasyddion, busnesau, ymwelwyr a staff.

Mae'r safonau hyn yn unol â Safonau Gwasanaethau Digidol Cymru. Maen nhw'n diffinio sut olwg sydd ar wasanaethau cyhoeddus da yng Nghymru ac yn helpu sefydliadau i ddylunio a darparu gwasanaethau effeithlon, cost-effeithiol sydd â'r defnyddiwr yn ganolog iddynt.

Mae'n gosod **pobl wrth galon** dyluniad gwasanaethau ac yn sicrhau bod gwasanaethau digidol yn:


**HAWDD EU DEFNYDDIO**



**CYNHWYSOL**




**ADDASADWY**



**MESURADWY**



## Mae'r Safon yn cynnwys 15 pwynt mewn 4 categori:



### DYLUNIADAU SYDD Â'R DEFNYDDIWR YN GANOLOG IDDYNT

Rydym yn dylunio gwasanaethau o amgylch anghenion go iawn defnyddwyr - trwy wrando ar bobl o'r cychwyn cyntaf, a gwrando arnyn nhw a dysgu ganddyn nhw. Mae ein dull gweithredu yn sicrhau bod gwasanaethau'n hawdd eu defnyddio ac yn hygyrch i bawb. Rydym yn ystyried lles pobl a chymunedau ledled Cymru, ac rydym yn adlewyrchu amrywiaeth gyfoethog Caerdydd yn y cyfan rydyn ni'n ei greu.

BYDDWN YN

- ✓ Ateb Gofynion Defnyddwyr - Dylunio gwasanaethau ar sail dealltwriaeth ddofn o'r bobl sy'n eu defnyddio.
- ✓ Sicrhau y Gall Pawb Ddefnyddio'r Gwasanaeth - Dylunio ar gyfer hygyrchedd a chynhwysiant o'r cychwyn cyntaf.
- ✓ Gosod ffocws ar Les Pobl yng Nghymru Nawr ac yn y Dyfodol - Sicrhau bod gwasanaethau'n cyfrannu'n gadarnhaol at les unigolion a chymunedau.
- ✓ Dylunio Gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg - Sicrhau bod gwasanaethau'n Ddwyieithog.
- ✓ Cydnabod cymunedau amrywiol Caerdydd wrth ddylunio gwasanaethau Newydd.



## CYDWEITHIO

Mae cydweithio yn ein helpu i ddarparu gwasanaethau cysylltiedig sy'n gweithio ar draws adrannau a sefydliadau. Drwy rannu syniadau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, rydym yn cynyddu ymddiriedaeth, yn sbarduno creadigrwydd, ac yn parhau i wella. Rydym hefyd yn sicrhau cysondeb yn ein dyluniadau digidol - boed wedi'u creu'n fewnol neu gyda chyflenwyr - fel bod defnyddwyr yn cael profiad di-dor.

BYDDWN YN

- ✓ Darparu Profiad Cysylltiedig - Sicrhau bod gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd ar draws adrannau a sefydliadau.
- ✓ Hyrwyddo ymhlith ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol - Hyrwyddo'r gwasanaeth trwy ymgysylltu, creu cynlluniau cyfathrebu a monitro adborth.
- ✓ Sicrhau cysondeb yn ein dyluniadau digidol boed wedi'u creu'n fewnol neu wedi'u prynu trwy gyflenwyr.



## TIMAU DIGIDOL

Mae pob gwasanaeth digidol yn cael ei gefnogi gan dîm sydd â'r cyfuniad cywir o sgiliau i'w ddylunio, ei adeiladu a'i wella. Rydym yn gweithio mewn camau, yn profi'n rheolaidd, ac yn rhannu cynnydd yn agored - fel bod gwasanaethau'n parhau i wella a phawb yn parhau'n wybodus.

BYDDWN YN

- ✓ Sicrhau Perchennog ar Bob Elfen - Sicrhau bod arweinydd clir, atebol ar gyfer pob gwasanaeth digidol, yn gyfrifol am gynllunio'u datblygiad.
- ✓ Sicrhau Bod Gennym Dîm Amlddisgyblaethol - Dod â'r sgiliau cywir at ei gilydd i ddylunio a darparu Gwasanaethau.
- ✓ Iteru a Gwella'n Aml - Profi, dysgu a gwella gwasanaethau yn barhaus.
- ✓ Gweithio'n Agored - Rhannu cynnydd, heriau a dysgu.



## HARNEISIO TECHNOLEG

Rydym yn dewis offer sydd â modd eu tyfu, yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'n nodau—gwneud gweithio'n fwy clyfar ac effeithlon. Rydym yn diogelu preifatrwydd defnyddwyr, ystyried moeseg ar bob cam, ac yn defnyddio data a mewnwelediadau i lywio ein penderfyniadau.

BYDDWN YN

- ✓ Defnyddio Technoleg Sy'n Gallu Tyfu - Dewis offer a llwyfannau all dyfu ac addasu.
- ✓ Ystyried Moeseg, Preifatrwydd a Diogelwch Bob Amser - Diogelu defnyddwyr a'u data ar bob cam.
- ✓ Defnyddio Data i Wneud Penderfyniadau - Seilio penderfyniadau ar dystiolaeth a mewnwelediadau defnyddwyr